# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 8 Mawrth 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, A.James, H.Jones, N.Pearce, A.Thomas a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave, M.Caddick, J.Hale, L.Newman, D.Whitelock, S.Renkes a/ac R.W.Wood |
| **Arsylwyr:** | Cynghorydd Wyndham Fryer Griffiths<br>Cynghorydd Sean Pursey |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Hysbyswyd y Pwyllgor am newid i'r adroddiad canlynol ar Agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 8 ar yr Agenda – Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2020/2021 – newidiwyd cyfnod y broses Rhoi Penderfyniadau ar waith o 'gyfnod galw i mewn 3 diwrnod' i 'weithredu ar unwaith'

Yn dilyn y diweddariad, roedd yr aelodau'n hapus gyda'r newidiadau, felly dewiswyd peidio â chraffu ar yr adroddiad.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad personol o fuddiant:

Y Cyng. M.Harvey - Parthed Eitem 11 – Cyllideb Refeniw 2021/2022 gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2021.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Addysg drwy Ddatblygiadau Consortiwm Gweithio Rhanbarthol

Diweddarwyd yr aelodau ar ddatblygiadau consortiwm Ein Rhanbarth ar Waith (ERW).

Tynnwyd sylw at y ffaith bod ERW wedi darparu cyrsiau hyfforddi amrywiol a gwybodaeth i ymarferwyr addysgol fel athrawon, cynorthwywyr addysgu a llywodraethwyr ysgol; Gofynnodd yr aelodau beth oedd wedi disodli'r ddarpariaeth honno, gan fod y cyngor wedi tynnu'n ôl o ERW.

Esboniodd swyddogion fod y cyngor yn darparu ei wasanaethau gwella ysgolion ei hun i ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol; roedd rhai enghreifftiau o'r trefniadau yn cynnwys y canlynol:

- Cynhaliwyd yr ymweliad craidd, y gwahoddwyd cadeiryddion llywodraethwyr iddo, gan Swyddogion Cefnogi Addysg y cyngor;
- Darparwyd y gefnogaeth i ddatblygu'r cwricwlwm hefyd gan staff gwella'r ysgol. Cafwyd cyfleoedd i ysgolion rannu arfer er mwyn sicrhau eu bod yn elwa o'i gilydd o ran dysgu, ac roedd nifer o ysgolion arloesi a fu'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm yn rhan ohono ers y cychwyn;
- Roedd yr Adran Addysg yn ymwneud â chynnal rhaglenni cymorth i lywodraethwyr;
- Rhoddodd y cyngor nifer o raglenni arweinyddiaeth cenedlaethol gan ERW ar waith, megis y Cymhwyster

Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP), yn ogystal â rhaglenni ar gyfer arweinyddiaeth ganol etc.

Yn dilyn hyn, dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig sicrhau bod ansawdd yr hyn a oedd yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion yn unol â'r dyheadau. Hysbyswyd yr aelodau fod grŵp cynghori ar y cwricwlwm wedi'i ddatblygu lle'r oedd ymarferwyr ysgol yn cymryd rhan ynghyd ag unigolion eraill, er enghraifft, pobl yn y gymuned sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain a swyddogion o Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd; roedd hyn yn galluogi swyddogion i gael dealltwriaeth o sut roedd y sgiliau a ddatblygwyd ar lefel ysgol o fudd i bobl ifanc o ran eu rhagolygon gwaith yn y dyfodol a'r sgiliau a fydd yn ofynnol dros y 10-15 mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau hynny yn ogystal ag ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith. Ychwanegwyd bod staff y Gyfarwyddiaeth Addysg wedi bod yn cwblhau gwaith mewn perthynas â'r diwydiant creadigol; cynhaliwyd confensiwn cwricwlwm llwyddiannus iawn lle'r oedd cwmnïau lleol a oedd yn ymwneud â rhaglenni cynhyrchu fel S4C yn bresennol.

Sicrhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant yr aelodau fod y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas ag ERW ac y byddai'n parhau i dderbyn diweddariadau; dywedodd y Cadeirydd y gallai aelodau a oedd â diddordeb yn y pwnc gael cyfle i ddod i'r Pwyllgor Craffu os oeddent yn dymuno dysgu rhagor.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â hysbysiad o dynnu'n ôl Abertawe a Chaerfyrddin, a chadarnhaodd Swyddogion fod yr hysbysiadau i dynnu'n ôl yn cael eu diddymu gan nad oeddent yn gallu cwblhau'r prosesau cyfreithiol o fewn yr amserlen yr oeddent yn eu hystyried yn wreiddiol.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd fod swyddogion wedi gofyn am fanylion yr atebolrwydd diswyddo, ond nad oeddent wedi derbyn ymateb eto; gofynnwyd a oedd gan swyddogion unrhyw syniad pryd y byddent yn cael ateb i hyn. Nodwyd nad oedd swyddogion wedi cael gwybod pryd y byddent yn derbyn y dadansoddiad, a byddant yn anfon nodyn atgoffa o hyn maes o law; fodd bynnag, gwneir gwaith sylweddol ar hyn o bryd o ran ad-drefniad posib ERW a allai liniaru rhai o'r costau diswyddo. Ychwanegwyd mai mater o weithio gyda chydweithwyr rhanbarthol oedd deall yr atebolrwydd diswyddo, gan gynnwys y costau a sut y gellid ei liniaru wrth symud ymlaen.

Mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru wrth i'r cyngor dynnu'n ôl o ERW ac a oeddent am barhau i ddarparu cyllid, cadarnhawyd bod y cyngor wedi derbyn cyllid drwy Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG) ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol nesaf.

Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw ofid o ran tynnu'n ôl o ERW. Dywedodd swyddogion mai'r ffactor pwysicaf yn y trafodaethau cyfredol oedd a oedd y cymorth yr oedd ei angen ar ysgolion yn cael ei ddarparu. Tynnwyd sylw at y ffaith bod proffil gwella ysgolion Castell-nedd Port Talbot a'i data o ran categoreiddio'n gadarnhaol iawn ac yn un o'r goreuon ledled Cymru. O ran categorïau Estyn, Castell-nedd Port Talbot oedd un o'r isaf ledled Cymru; roedd dwy ysgol leol yn derbyn adolygiad Estyn ac ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw ysgolion yn y 'categori statudol' (er gwybodaeth, roedd y categori statudol yn golygu bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ysgol). Soniodd swyddogion fod y ffactorau hyn yn cyfiawnhau'r penderfyniadau a wnaed, fodd bynnag fel ymarferwyr gwella ysgolion, mae'n bwysig myfyrio ar anghenion yr ysgolion bob amser; roedd angen deall yr hyn a oedd yn ofynnol wrth symud ymlaen o sefyllfa bresennol y pandemig, a meddwl sut y gallai'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion hynny. Soniwyd bod swyddogion yn dechrau derbyn adborth gan ysgolion, gan eu bod wedi dechrau ailagor, ynghylch rhai o'r materion yr oedd pobl ifanc yn eu cyflwyno wrth iddynt ddychwelyd; cafwyd adroddiadau gan yr Awdurdod Iechyd ynglŷn â chynnydd mewn anhwylderau bwyta ymhlith plant a phobl ifanc, felly roedd yn hanfodol gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd a gwasanaethau plant i gynllunio a chyflwyno rhaglen adfer a fyddai'n ddigon hyblyg i ymdrin â'r mater wrth i blant ddychwelyd i'r ysgol. Ychwanegwyd bod arian ychwanegol ar gael i gefnogi adferiad, ac y byddai angen iddo gyrraedd yr ystafell ddosbarth er mwyn ceisio gwneud iawn am y profiadau y mae pobl ifanc wedi'u cael dros y 12 mis diwethaf.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>Adroddiad Diweddaru a Monitro Cyllideb 2020 - 2021</u>

Cyflwynwyd trosolwg i'r pwyllgor o oblygiadau ariannol COVID-19 ar Adnoddau Ariannol y cyngor a Chyllideb 2020/21.

Gofynnodd yr aelodau i swyddogion ddarparu sylwebaeth ar ganlyniadau diwedd y flwyddyn a'r tanwariant posib o £1.2 miliwn, a sut y byddai hynny'n cael ei drin wrth symud ymlaen. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi mai £1.9 miliwn

oedd tanwariant rhagamcanol y flwyddyn, a fyddai'n cael ei roi yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol; roedd hyn yn golygu mai £19.845 miliwn fyddai balans rhagamcanol y gronfa wrth gefn ar ddiwedd mis Mawrth 2021. Soniodd swyddogion y byddai'r aelodau'n derbyn adroddiad terfynol mewn perthynas â ffigurau'r gyllideb maes o law. Mewn perthynas â'r tanwariant o £1.2 miliwn, dywedwyd ei fod wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau a ddosbarthwyd.

Gofynnwyd i swyddogion a allent ddarparu manylion y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r gwariant refeniw net ar gyfer yr awdurdodau cyfagos. Cadarnhawyd nad oedd gan swyddogion ffigurau cyffredinol y cronfeydd wrth gefn ar gyfer awdurdodau eraill ac nad oeddent yn ymwybodol o sut y gellid cyrchu'r wybodaeth hon; fodd bynnag, gellid dod o hyd i wybodaeth net y gyllideb refeniw ar wefan Stats Cymru. Nodwyd y byddai swyddogion yn lawrlwytho'r wybodaeth hon o'r wefan ac yn ei dosbarthu i'r aelodau.

Gofynnwyd ai'r fersiwn ddiweddaraf oedd y tabl o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a dderbyniodd aelodau cyn hyn, a oedd yn dangos gwybodaeth o bob awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Mawrth 2019. Cadarnhaodd swyddogion fod y tabl y cyfeiriwyd ato yn debygol iawn o fod yn hen wrth i ddata'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol newid yn rheolaidd, felly ni fyddai'n dangos sefyllfa bresennol unrhyw awdurdod lleol.

Gofynnodd yr aelodau a oedd yn orfodol i bob awdurdod lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Hysbyswyd y pwyllgor ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud hyn fel rhan o'i ddatganiad o gyfrifon; Cyhoeddodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot y safbwynt diweddaraf ar y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a phenodol ym mhob adroddiad monitro cyllideb a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu'r Cabinet a'r Cabinet, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y datganiad o gyfrifon.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gwybodaeth gymharol â chynghorau eraill, ond dywedwyd bod poblogaeth/maint Bwrdeistrefi Sirol yn amrywiol iawn ac er bod y gwasanaethau a ddarparwyd gan gynghorau'n statudol debyg, roedd y lefel y maent yn ei darparu yn wahanol iawn, felly roedd yn anodd eu cymharu.

Gofynnwyd a oedd swyddogion yn gyfforddus â'r lefel arfaethedig bresennol o gronfeydd rhagamcanol wrth gefn. O ran y cyfrifiadau, nodwyd mai dyma oedd yr amcangyfrif gorau o safbwynt presennol y cyngor; roedd ychydig wythnosau i fynd o hyd cyn diwedd y flwyddyn

ariannol, ac roedd angen cwblhau prosesau gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cadarnhau cywirdeb y cyfrifon. Ychwanegwyd y bydd yr holl ffactorau hynny'n cael eu hystyried dros y misoedd nesaf, gyda'r nod o lofnodi'r holl gyfrifon ar gyfer y flwyddyn gyfredol erbyn diwedd mis Gorffennaf. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y cyngor erioed wedi cael adroddiad archwilio cymwysedig o ran y cyfrifon ers iddo fod yn y rôl.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd enillion treth y cyngor yn tueddu i ostwng wrth i lefel treth y cyngor gynyddu. Hysbyswyd yr aelodau fod y broses o gasglu treth y cyngor wedi bod yn eithriadol o dda dros y 5 mlynedd diwethaf; y cyngor oedd un o'r rhai uchaf o ran casgliadau treth y cyngor yng Nghymru, ac yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf casglodd y cyngor y ganran uchaf, sef 98.1%. Soniwyd bod Tîm Treth y Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ganiatáu i bobl ail-broffilio eu rhandaliadau o ddechrau'r flwyddyn hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon; ar ddiwedd mis Chwefror 2021 cofnodwyd bod 96.4% o dreth y cyngor wedi'i chasglu ac roedd y rhandaliadau pellach yn uwch nag arfer.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet

<u>Cyllideb Refeniw 2021/2022</u>

Cyflwynwyd adroddiad mewn perthynas â'r gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor.

Nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd y byddai'r cyngor yn defnyddio £3.1miliwn i gydbwyso'r gyllideb o'r cronfeydd wrth gefn; Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch yr hyn a olygir gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb.

Esboniwyd mai cronfeydd wrth gefn oedd y trefniant o sicrhau bod gan y cyngor ddigon o arian i ymdrin â'r pryniannau annisgwyl a mawr y byddai angen i'r cyngor eu hangen neu am eu gwneud yn y dyfodol; roedd yn hanfodol bod gan y cyngor y gallu i ymdrin â mesurau annisgwyl, er enghraifft llifogydd a sefyllfaoedd brys eraill. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod pandemig COVID-19 hefyd yn enghraifft o hyn, ond roedd hyn wedi bod ychydig yn wahanol i amgylchiadau arferol gan fod Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddent yn darparu cyllid drwy'r Gronfa Galedi ar gyfer y costau annisgwyl; fel arfer byddai angen i'r cyngor ei hun dalu'r £6,013 cyntaf o waith y cyngor sy'n gysylltiedig ag argyfyngau, sef 0.2% o'r gyllideb, ynghyd â 15% arall o unrhyw beth ar ben y trothwy o £6,013.

Nodwyd mai dyma oedd Cynllun Cymorth Ariannol Brys yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith i ymdrin â phroblemau. Ychwanegodd swyddogion fod y cronfeydd cyffredinol wrth gefn ar gael ar gyfer y mathau hyn o sefyllfaoedd ynghyd ag amrywiadau mewn lefelau gwasanaeth a chostau; roedd yn bwysig sicrhau bod gan y cyngor gyllidebau a phrosesau cynaliadwy i reoli materion gweithgarwch ac ariannol dros y blynyddoedd.

Gofynnodd yr aelodau sut roedd swyddogion wedi gallu lleihau'r taliadau treth y cyngor arfaethedig wreiddiol o 3.75% i 2.75%. Dywedwyd yng nghyfarfod blaenorol Pwyllgor Craffu'r Cabinet lle cyflwynwyd cynigion y gyllideb ddrafft (13 Ionawr 2021), fod Llywodraeth Cymru wedi nodi mai dim ond hyd at lefel benodol y gallent ddarparu cymorth; rhagwariant rhagamcanol y cyngor ar y pryd oedd £2.5 miliwn ac erbyn hyn rhagwelwyd y byddai'n £1.2miliwn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ers hynny ei bod yn darparu arian ychwanegol i gefnogi'r heriau sy'n gysylltiedig â threth y cyngor; roedd y cyngor wedi derbyn £7,027 am hynny a £6,003 arall tuag at gymorth o ran treth y cyngor. Esboniodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gallai cynghorau adennill mwy o arian o ran colli incwm hyd at ddiwedd mis Rhagfyr, a oedd wedi arwain at ddarparu mwy o arian i'w roi yn y cronfeydd wrth gefn; roedd hyn yn golygu y gellid cymryd £3.1 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn y flwyddyn nesaf er mwyn gostwng treth y cyngor 1%.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynnydd o ran treth y cyngor ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot o'i gymharu â'r cynnydd o ran treth y cyngor mewn awdurdodau lleol eraill. Hysbyswyd yr aelodau fod y rhan fwyaf o gynghorau naill ai wedi pennu eu treth y cyngor yn ddiweddar ar gyfer y flwyddyn nesaf neu ar fin cwblhau eu ffigurau; roedd yr wybodaeth yr oedd swyddogion wedi'i gweld hyd yma yn awgrymu bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi pennu'r ail gynnydd isaf o ran treth y cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf oedd yn debygol o fod â'r gyfradd isaf, sef 2.65%; roedd cynghorau eraill wedi datgan bod eu cyfradd rhwng 3-4% ac ychydig yn uwch na hynny. Nodwyd bod bwlch ariannol rhagamcanol o £49 miliwn ar hyn o bryd dros y tair blynedd nesaf os nad oedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gallu cynyddu'r lefel bresennol o gymorth ariannol maent yn ei ddarparu; roedd hyn yn eithaf sylweddol gan eu bod yn darparu ychydig o dan 75% o'r cyllid ar gyfer cynnal gwasanaethau'r cyngor a oedd yn cyfateb i £236.68 miliwn. Ychwanegwyd bod talwyr treth y

cyngor lleol yn cyfrannu 25% o gostau cynnal gwasanaethau'r cyngor.

Yn dilyn hyn, nodwyd mai Cyngor Castell-nedd Port Talbot oedd â'r drydedd gyfradd uchaf o ran treth y cyngor yng Nghymru. Esboniodd swyddogion fod y rhesymu dros hyn yn mynd yn ôl i'r adeg pan ad-drefnwyd llywodraeth leol; arweiniodd manylion hyn at dreth y cyngor uwch yn y flwyddyn gyntaf. Dywedwyd y gwnaed penderfyniadau bob blwyddyn ers hynny er mwyn ceisio dod yn agosach at ffigurau'r asesiad gwariant safonol.

Hysbyswyd yr aelodau fod y balans terfynol rhagamcanol ar y cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi cynyddu i £19.845 miliwn, ac mai dyna fyddai balans agoriadol 2021/22; gyda'r defnydd rhagamcanol o werth £3.1miliwn o gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ategu'r gyllideb ar gyfer 2021/22, roedd yn golygu y byddai'r cronfeydd rhagamcanol wrth gefn ar 31 Mawrth 2022 yn gostwng i £16.86 miliwn.

Darllenodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ddarn o erthygl a ysgrifennwyd gan Rob Whiteman, Prif Weithredwr Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a ysgrifennwyd ar 2 Ebrill 2020.

Dywedodd swyddogion pe bai gormod o arian yn cael ei dynnu o gronfeydd cyffredinol mewn blwyddyn, byddai angen rhoi paratoadau ar waith i leihau gweithgareddau a/neu wasanaethau ar gyfer y blynyddoedd ariannol canlynol; byddai'r strategaeth yr oedd angen ei rhoi ar waith yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, nid y flwyddyn ariannol gyfredol yn unig. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y blaengynllun ariannol wedi nodi pe na bai unrhyw arian ychwanegol yn cael ei gyflwyno o unrhyw ffynhonnell, yna byddai her o greu £49miliwn dros y tair blynedd nesaf; roedd angen ystyried yr her hon bob blwyddyn wrth edrych ar y gyllideb. Ychwanegodd swyddogion nad oeddent wedi derbyn unrhyw gynigion amgen gan aelodau dros y misoedd diwethaf ers iddynt ystyried cynigion y gyllideb.

Yn ogystal, er bod y £206.6 miliwn yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r Cyllid Caledi i dalu am COVID-19 y flwyddyn nesaf wedi'i groesawu, nid oedd hirhoedledd nac effaith y pandemig ar yr arian cyffredinol yn hysbys; felly, gallai swm yr arian y gallai fod angen ei dynnu o'r cronfeydd wrth gefn fod yn uwch na £3.1 miliwn fel y nodir ar hyn o bryd yn adroddiad y gyllideb a ddosbarthwyd. Hysbyswyd y Pwyllgor fod angen ystyried yr holl faterion hyn wrth lunio strategaeth

gyllideb gynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd ariannol nesaf ac yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau pa gymorth oedd ar gael i'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd talu treth y cyngor. Dywedwyd mai cyfanswm yr arian a oedd ar gael ar gyfer cymorth gyda threth y cyngor eleni oedd £18.7 miliwn, a byddai hyn yn codi i £19.8 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf; byddai'r arian hwn yn cefnogi tua 17,500 o dalwyr treth y cyngor allan o 64,000 o eiddo ar draws y fwrdeistref sirol, wrth i dros 12,000 o breswylwyr gael cymorth ariannol llawn tuag at eu taliadau treth y cyngor. Ychwanegwyd y byddai'r 5,500 o breswylwyr eraill yn cael cymorth rhannol gan fod eu henillion a'u lefelau incwm yn caniatáu iddynt wneud rhai cyfraniadau tuag at dreth y cyngor. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y gwerth band D arfaethedig ar gyfer treth y cyngor yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'i nodi yn yr adroddiad a ddosbarthwyd (£1,660), ond soniodd yr adroddiad hefyd fod tua 80% o eiddo yn y fwrdeistref sirol yn y tri band isaf (A,B ac C) o drefn treth y cyngor; byddai'r rhai ym mand C gyda dau oedolyn sy'n talu yn y tŷ yn talu tua £1,457, a byddai'r rhai a oedd yn ddeiliaid sengl yn cael gostyngiad o 25% tuag at gyfanswm eu taliadau treth y cyngor. Hysbyswyd yr aelodau fod rhan fwyaf o breswylwyr Castell-nedd Port Talbot yn talu llai na'r £1,457 a grybwyllwyd ar gyfer band D, ac er y byddai'r cynnydd o 2.75% yn cael ei gymhwyso i bob band, roedd cymhareb talwyr treth y cyngor y fwrdeistref sirol ym mandiau A, B a C yn bennaf, sef y gyfradd treth y cyngor is.

Cynhaliwyd pleidlais i benderfynu pa aelodau oedd o blaid ac yn erbyn yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Roedd canlyniadau'r bleidlais fel a ganlyn:

- O blaid – 12
- Yn erbyn – 4
- Ymatal – 0

Yn dilyn y broses graffu, roedd mwyafrif y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

<u>Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/2022</u>

Darparwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn nodi Strategaeth Rheoli Trysorlys y cyngor, y Strategaeth Buddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2021/22.

Darparodd swyddogion sylwebaeth ar yr arwyddion ar gyfer y gyfradd chwyddiant yn ystod y flwyddyn a sut y gallai effeithio ar strategaeth reoli'r trysorlys. Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn rhoi syniad o beth fyddai'r effaith debygol ar log buddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol hyd at 2024/25. Nodwyd ei fod yn debygol mai'r adenillon tebygol fyddai 0.10% am y tair blynedd nesaf ac y byddai yna'n codi i 0.25% yn 2024/25; dyma farn cynghorwyr y trysorlys ynghylch sut y gallai cyfraddau llog fod yn berthnasol dros y blynyddoedd nesaf. O ran chwyddiant, dywedwyd bod 1% wedi'u cynnwys yn amcangyfrifon y cyngor ar gyfer codiadau cyflog ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu; roedd y galw am godiadau cyflog yn debygol o fod yn uwch na hyn, ond byddai hynny'n cael ei ddatrys gyda thrafodaethau mewn mannau eraill. Hysbyswyd yr aelodau mai targed y llywodraeth oedd parhau i gadw chwyddiant ar neu tua 2% dros amser, ond ar hyn o bryd roedd yn llawer is na hynny; ar hyn o bryd, mae'r chwyddiant yn uwch na llog buddsoddiadau, ond roedd y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd ar waith yn rhai tymor hir (dros 40-50 mlynedd). Tynnwyd sylw at y ffaith mai'r mater mwy heriol wrth symud ymlaen oedd nodi pa gyfraddau llog a fyddai ar gael o hyn ymlaen i gefnogi rhaglen gyfalaf y cyngor a'r cyllid y mae ei angen i ategu'r rhaglen gyfalaf. Cyfeiriodd swyddogion at y Gofyniad Ariannu Cyfalaf a'r posibilrwydd o gyfraddau llog y manylwyd arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; byddai'r ffactorau hyn yn cael effaith ar y rhaglen gyfalaf, ond roeddent wedi'u cynnwys yng nghyllideb rheoli'r trysorlys a byddant yn cael eu rheoli yn unol â hynny.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r arian ychwanegol a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru a'r effaith y byddai'n ei chael ar brosiectau cyfalaf y cyngor, yn enwedig ysgolion yr 21ain ganrif, gan y nodwyd na fyddai unrhyw swm o'r arian ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf. Nodwyd bod Swyddogion wedi cyflwyno'u cynlluniau cychwynnol ar gyfer y buddsoddiad o £80miliwn drwy fand B; roedd y buddsoddiad cyntaf yn ymwneud ag Ysgol Gyfun Cefn Saeson, a gyflwynwyd yn ystod y pandemig ac y disgwyliwyd iddi agor ym mis Mehefin 2021. Hysbyswyd yr aelodau fod rhai o'r prosiectau eraill yn y rhaglen gyfalaf wedi'u hadlewyrchu'n gynharach a'u bod wedi'u cynnwys yn y pecyn £80 miliwn; ni ddylai'r ffaith na chafwyd unrhyw gyhoeddiad ychwanegol gan Lywodraeth y DU gael effaith ar y strategaeth band B, ond gallai gael effaith ar yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru fod eisiau ei wneud, naill ai o ran ei ymestyn ar gyfer bandiau buddsoddi pellach neu ar gyfer prosiectau eraill. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd swyddogion yn credu y byddai hyn yn cael effaith ar brosiectau ysgolion yr 21ain ganrif o'r adeg hon.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd y Pwyllgor Flaenraglen Craffu'r Cabinet ar gyfer 2020/21.

**CADEIRYDD**